# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 24 Tachwedd 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – Cyngr. Linda Brown a Huw Jones.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
**Contractwyr yn parcio ym Maes Bleddyn –** Adroddwyd y Cyng. Michael Williams fod y contractwyr sydd yn gweithio yng Nghae Rhosydd dal i barcio ym Maes Bleddyn. Cytunwyd y bydd y Clerc yn cysylltu â'r contractwyr ac Adra. Y Clerc hefyd i gysylltu â'r adran cynllunio ynglŷn a'r 'containers'.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – Cadarnhawyd Cyngor Gwynedd fod llythyrau wedi ei danfon i'r tir berchnogion yn dilyn yr adroddiadau gwreiddiol gan ofyn iddynt docio tyfiant yn ôl yn wirfoddol heb gyflwyno rhybudd ffurfiol arnynt. Cafwyd ychydig drafferth i adnabod perchnogion un ochr i'r ffordd gan fod manylion y Gofrestr Tir (HMSO Land Registery) yn nodi'r cyfeiriad anghywir. Gan nad oes unrhyw weithred wedi ei gyflawni gan yr unigolion preifat yn dilyn y cyswllt cyntaf, mae nhw nawr wedi cyflwyno rhybudd arnynt dan Adran 154 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980. Maent yn disgwyl i'r cyfnod rhybudd ddod i ben ar hyn o bryd cyn archwilio'r lleoliad unwaith eto. Os nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau, yna bydd y Gwasanaeth Priffyrdd yn ymgymryd â'r gwaith, ac yn adennill y costau oddi ar y tir berchnogion perthnasol.

**5.2** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Nodwyd y Cyng. Paul Rowlinson fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y ddau drych yma.
**5.3** YGC – Sherpa Shelters – Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgriniau gyda'r amserlen yn y llochesi metel presennol y mae'r Cyngor wedi'i osod yn ddiweddar. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.4** Llinellau Melyn – man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Tanybwlch, Rachub – ar y gweill – y Clerc.
**5.5** Ffordd Llwyn Bleddyn a mynediad i fynwent Coetmor – y Clerc wedi danfon pryderon y Cyngor ymlaen ac wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad dioglewch ar y ffordd. Nodwyd y Cyng. Paul Rowlinson nad yw Cyngor Gwynedd yn gweld yr gwaith hwn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, ond bydd y Cyng. Paul Rowlinson yn mynd ymlaen i gwthio i gael drych ger fynediad y fynwent.
**5.6** Nodwyd y Cyng. Walter Williams ei fod wedi derbyn cwyn am arwydd siop Penrhyn Pictures ar y stryd fawr, am ei fod yn uniaith Saesneg. Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion.
**5.7** Golau Stryd Llidiart y Gwenyn – Adroddwyd fod hi'n dywyll iawn ger y tai. Y Clerc wedi edrych ar y cais cynllunio, ond dim sôn am golau stryd arno. Y Clerc i holi Colin Worth, Cyngor Gwynedd am bris golau stryd.
**5.8** Lon Bach Odro - Adroddwyd y Cyng. Huw Jones fod angen torri'r coed ar hyd y llwybr hwn, a bod y ffens a'r waliau cyfagos angen ei trwsio. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, disgwyl am diweddariad.
**5.9** 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub – y Clerc wedi cysylltu a Sunshine Playgrounds dwy waith i ofyn am bris, ond dim ymateb hyd yn hyn.
**5.10** Golau Stryd Maes Parcio Pantdreiniog Isaf – Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd nad yw'r golau yn gweithio.
**5.11** Cae Chwarae Pantdreiniog – Y Clerc i gael pris gan contractwr lleol i rhoid rhisgl i lawr ar y safle.
**5.12** Lloches Bws Lon Newydd – Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am caniatad, dim ymateb hyd yn hyn.

**6. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Cylchredwyd y dogfennau i'r aelodau cyn y cyfarfod. Pendefynwyd derbyn yr adroddiad.

**7. Gorffwysfan**
Nodwyd y Cyng. Einir Williams fod Clwb Henoed wedi gael ei sefydlu yn ystod y pandemig, ac eu bod bellach yn defnyddio'r Gorffwysfan i gyfarfod. Mae'r clwb wedi holi os oes modd gael 'geezer' a meicrodon yno, a phenderfynwyd y bydd y Cyngor yn prynu rhain. Y Clerc i archebu.

**8. Clwb Ieuenctid Bethesda**
Adroddwyd fod y Clwb Ieuenctid wedi cychwyn un waith yr wythnos ar nos Lun ar llawr isaf Canolfan Cefnfaes. Nodwyd fod y gwaith atygyweirio dal yn mynd ymlaen ar y llawr uchaf, ac ddim yn siwr pryd fydd y gwaith yn gael ei gwblhau. Hoffai'r clwb gynnal noson ychwanegol, ond oherwydd nad yw'r llawr uchaf yn barod, fydd angen dalu am lleoliad arall. Penderfynwyd bydd y Cyngor Cymuned yn talu £50 yr wythnos tuag at costau llogi hyd at ddiwedd Ionawr 2022.

**9. Maes parcio Gerlan**
Nodwyd fod y Cadeirydd wedi gael sgwrs gyda'r unigolyn sydd yn ganol prynu'r tir mewn sylw.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2022'
**10.1** Cyngor Gwynedd – Cais am linellau melyn, Llwyn Bleddyn – Penderfynwyd fod y Cyngor yn hapus gyda'r cynllun.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**Penderfyniadau**

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0327/16/AC**<br>Chwarel y Penrhyn | Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0336/16/MW**<br>Chwarel y Penrhyn | Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, Bethesda | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/0929/13/AC**<br>1 Tan y Gaer, Carneddi | Cais i ddiwygio amod 7 o ganiatâd cynllunio C20/0339/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd a mynedfa er mwyn cydymffurfio a gofynion draenio dŵr budr/wyneb.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/0951/13/DT**<br>4 Henbarc, Carneddi | Estyniad unllawr i gefn yr estyniad ynghyd ac ffenestr dormer newydd.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/0901/13/LL**<br>38 Ffordd Tanybwlch | Addasu a newid defnydd modurdy presennol yn dŷ<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C22/1055/13/DT**
5 Rhes Victoria, Bethesda

Newid defnydd o uned manwerthu i ofod byw domestig
**Penderfyniad:** Trafod sylwadau yn y cyfarfod nesaf.

**C22/1054/13/AC**
88 Ffordd Carneddi, Carneddi

Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio C19/0546/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd er mwyn caniatáu diwygiadau i'r dyluniad a gosodiad.
**Penderfyniad:** Dim sylw.

**12. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £63.55 |
| S L Eames | Gwaith Atgyweirio Wal Gynnal Llys Dafydd | £8500.00 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £67.81 |
| John Wyn Jones | Cyflog Tachwedd | £318.20 |
| CThEM | TWE mis Tachwedd | £79.60 |